# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 31
CHWEFROR 2010

Dau enw amlwg a fu yn y newyddion yn ddiweddar oedd Andy Murray a Tony Blair, y naill yn chwaraewr tennis a'r llall yn gyn- Brif Weinidog Prydain Fawr.

Bu Andy Murray yn hawlio'r penawdau gan iddo gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Tennis Agored Awstralia a mawr oedd y disgwyliadau gan ei gefnogwyr wrth iddo gystadlu yn erbyn Roger Federer. Er i Andy Murray roi o'i orau glas, ni lwyddodd i drechu un o gewri y byd tennis ac fe lithrodd cwpan un o brif pencampwriaethau'r byd tennis o'i afael unwaith yn rhagor. Druan o Andy Murray. Yr oedd yn ei ddagrau wrth i Federer dderbyn ei wobr!

Un arall a roddodd o'i orau oedd Tony Blair pan ymddangosodd gerbron Ymchwiliad Chilcott, sef yr Ymchwiliad i Ryfel Irac . Roedd yna ddisgwyliadau mawr hefyd am ei ymddangosiad ef wrth iddo roi tystiolaeth i'r panel yn egluro ei resymau dros fynd â Phrydain i ryfel yn y Dwyrain Canol. Tu allan i Neuadd Eliasbaeth yr Ail yn Llundain lle cynhelid yr Ymchwiliad, yr oedd cannoedd o brotestwyr wedi ymgasglu i ddangos eu gwrthwynebiad iddo ac yn eu plith yr oedd pobl a oedd wedi colli anwyliaid yn y rhyfel. Er i Tony Blair wneud ei orau glas i gyfiawnhau ei resymau dros fynd i ryfel ni lwyddodd i ddarbwyllo y nifer helaeth a oed yn gwrando arno. Ni bu sôn chwaith am unrhyw fath o ymddiheuriad a gwelwyd nifer yn eu dagrau wedi eu siomi'n lân.

Do fe siomwyd Andy Murray a'i gefnogwyr brwd ac fe siomwyd llawer un a fu'n gwrando ar Tony Blair yn cyflwyno ei dystiolaeth.

Y mae siomedigaethau mawr a mân yn dod i bawb ohonom rywbryd neu'i gilydd. Cawn ein siomi ynom ni ein hunain; gan deulu, cyfeillion a phobl a ddylai wybod yn well. Yn fuan iawn mewn bywyd fe ddown i sylweddoli mai prin iawn yw'r bobl neu'r pethau y medrwn ni bwyso arnyn nhw gydag unrhyw fath o sicrwydd.

Cael eu siomi oedd profiad y disgyblion wrth i'r Iesu gael ei arestio a'i roi i farw ar groesbren. Chwalwyd eu gobeithion a'u breuddwydion. Fel y dywedodd un o'r ddau ar y ffordd i Emaus, "Ein gobaith ni oedd mai ef oedd yr un oedd yn mynd i brynu Israel i ryddid" ond fe ddrylliwyd y gobaith hwnnw. Fe wnaeth yr Arglwydd Iesu ei orau glas i geisio darbwyllo pobl o'i ffordd a'i ddull tra ar y ddaear hon ond yn y pen draw doedd ond un peth y medrai ei wneud i ddangos ei gariad mawr tuag atom a hynny oedd marw ar groesbren trosom ni oll. Bu hyn yn siom enbyd i'w holl ddilynwyr.

Ymhen ychydig wythnosau fe fydd hi'n dymor y Grawys ac fe fyddwn eleni eto yn cychwyn ar daith i Jerwsalem yng nghwmni'r gŵr a ddaeth yn Waredwr y byd. Cawn gyfle i gofio am siomedigaethau'r disbyglion a'r siom a brofodd yr Arglwydd Iesu wrth i'w gyfeillion pennaf droi cefn arno. Ond yn y pen draw fe gofiwn i'r Iesu droi siom y croeshoeliad i fod yn obaith newydd yr atgyfodiad. Fe ddaw a'r gobaith hwnnw i'n holl siomedigaethau ar lwybr bywyd gan gynnig inni hyder newydd yng ngrym ei gariad dwyfol Ef.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR CHWEFROR 2010

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd | Organydd y Mis : Mair Evans | |
| 7 Chwefror 2.30yp | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue |
| 14 Chwefror 10.30yb | Oedfa Deuluol : Gweinidog | |
| 21 Chwefror 2.30yp<br>Sul Cyntaf y Grawys | Oedfa Bregeth: Gweinidog | Gofal y Te: Rhiannon a Carwen |
| 28 Chwefror 10.30yb | Clwb Sul Bach ac Oedfa Bregeth : Y Parchedig Peter Thomas | |
| 7 Mawrth 2.30yp | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun : I'w drefnu |

I'CH DYDDIADUR

9 Chwefror : Cyfarfod Diaconiaid am 7.30yh
10 Chwefror : Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.
11 Chwefror : Cyfarfod Os Mêts : Capel y Garn am 7yh. Daw Wynfford Ellis Owen atom o'r Cyngor Alcohol a Chyffuriau eraill. Bydd y cyfarfod yn agored i oedolion yn ogystal â'r ieuenctid.
17 Chwefror : Cymdeithas Bethel : Fe fydd Scott Lloyd o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn sgwrsio am Prosiect y Capeli am 2.00yp. Croeso cynnes i bawb.
17 Chwefror : Cymdeithas y Penrhyn : Elvey Macdonald yn trafod ei hunangofiant "Llwch" am 7.30yh.
18 Chwefror : Cyfarfodydd y Grawys : Seion am 7yh.
23 Chwefror : Cwrdd Gweddi am 7.30yh
24 Chwefror :Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys
25 Chwefror : Cyfarfodydd y Grawys: Bethel am 7yh
1 Mawrth : Cinio Cymorth Cristnogol : Yr Eglwys Fethodistaidd, Penparcau 12.00-1.30yp
4 Mawrth : Cyfarfodydd y Grawys : Morfa am 7yh
12-13 Mawrth : Cwrs Hyfforddi ar gyfer Taith Dewi Sant.
11 Gorffennaf: Gwibdaith Bethel a Horeb i Silian.

LLOFFION

Llongyfarchiadau i Elin Huxtable ar ennill Gwobr Astudiaethau Crefyddol yng Ngwobrau Enillwyr Penweddig i'r rhai a gyflawnodd orau yn eu Lefel A a'r BAC yn 2009.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhys Hedd a etholwyd yn Gadeirydd Fforwm Ieuenctid yr Urdd yn ddiweddar.

Dymuniadau gwresocaf i Mrs Connie Evans na fu'n hwylus iawn yn ddiweddar.

Taith Dewi Sant: Os hoffech ymuno ag un o'r timoedd cenhadu, cynhelir cwrs hyfforddiant ar y 12-13 Mawrth yn Eglwys San Mihangel, Aberystwyth. Cewch fwy o wybodaeth gan y Gweinidog.

Noson Lesotho : Rydym yn disgwyl clywed gan un o fyfyrwyr Coleg y Drindod, Caerfyrddin ynglŷn â threfniadau'r noson hon.

Bocs Cymorth Cyntaf a Llyfr Damweiniau: Yn dilyn argymhelliad yng nghyfarfod y diaconiaid gosodwyd Bocs Cymorth Cyntaf a Llyfr Damweiniau yng nghegin y capel.